# Thema – Drysau

## Ein cwestiwn mawr – Sut mae drysau yn adrodd stori lleoliad?

| | |
|---|---|
| **Iechyd a Lles**<br> | Wrth archwilio adeiladau a lleoedd yn ein cymuned, bydd y plant yn trafod sut mae lleoedd fel ysgolion, canolfannau cymunedol, addoldai a pharciau yn helpu pobl i ffurfio cyfeillgarwch a chydberthnasau cadarnhaol. Byddant yn dysgu sut i fynegi eu teimladau a'u hanghenion, datrys anghytundebau'n barchus, a deall pam mae hawliau plant a hawliau dynol yn bwysig mewn cymuned iach a chynhwysol. Hefyd, byddant yn datblygu sgiliau cydbwysedd ac ymwybyddiaeth hoci.<br>Bydd y dysgwyr yn datblygu eu **sgiliau llythrennedd** drwy drafodaethau, chwarae rôl a gwaith ysgrifennu, eu **sgiliau rhifedd** drwy gynnal arolygon syml a chyflwyno canlyniadau, a'u **sgiliau digidol** drwy greu posteri, cyflwyniadau neu fideos byrion i hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol a lles. |
| **Dyniaethau.**<br> | Bydd y plant yn defnyddio adeiladau a drysau fel ffenestr i'r gorffennol a'r presennol, gan ymchwilio i leoedd arbennig yn eu cymuned ac ar draws y byd. Byddant yn cymharu mapiau, archwilio sut mae tirweddau a lleoedd yn newid, ac yn trafod beth sy'n gwneud lle yn bwysig i bobl a chymunedau gwahanol. Byddwn hefyd yn cymharu Abaty Talyllychau gyda rhyfeddodau'r byd, gan gynnwys y Taj Mahal yn India.<br>Byddant hefyd yn dysgu am draddodiadau Nadolig, Diwali a gwerthoedd pwysig ym mywyd Mwslimiaid drwy astudio pererindod y Hajj. Trwy'r gweithgareddau hyn, bydd y plant yn datblygu eu **sgiliau llythrennedd** drwy ymchwilio a thrafod, eu **sgiliau rhifedd** drwy ddehongli gwybodaeth a chymariaethau, a'u **sgiliau digidol** drwy ddefnyddio mapiau, ffotograffau a chyflwyniadau digidol i rannu eu dysgu. |
| **Gwyddoniaeth.**<br> | Bydd y plant yn ymchwilio i sut mae grymoedd yn effeithio ar bobl a gwrthrychau drwy gynnal ymchwiliadau ymarferol a phrofi eu syniadau eu hunain. Gan gysylltu â'r thema adeiladau a drysau, byddant yn archwilio sut mae drysau'n agor ac yn cau, sut mae gwthio a thynnu yn creu symudiad, a sut mae peirianwyr yn dylunio adeiladau a strwythurau sy'n ddiogel ac yn addas i'w diben.<br>Bydd y dysgwyr yn defnyddio eu creadigrwydd i ddylunio, adeiladu a gwerthuso modelau a datrysiadau syml, gan ddatblygu eu **sgiliau llythrennedd** drwy drafod a chofnodi eu canfyddiadau, eu **sgiliau rhifedd** drwy fesur, cymharu a chyflwyno canlyniadau ymchwiliadau, a'u **sgiliau digidol** drwy ddefnyddio technoleg i ymchwilio, cofnodi data a chyflwyno eu gwaith mewn ffyrdd creadigol. |
| **Celfyddydau Mynegiannol**<br> | Bydd y plant yn defnyddio adeiladau a drysau fel ysbrydoliaeth ar gyfer eu gwaith creadigol, gan archwilio sut mae artistiaid a dylunwyr yn mynegi syniadau, teimladau a straeon drwy wahanol ffurfiau celf. Byddant yn arsylwi adeiladau lleol a rhai o Gymru a'r byd ehangach, gan greu eu lluniau, paentiadau, modelau a dyluniadau eu hunain mewn ymateb.<br>Bydd y dysgwyr yn arbrofi gyda gwahanol ddeunyddiau a thechnegau, yn dylunio a chreu adeiladau neu ddrysau dychmygol, ac yn rhannu eu syniadau gyda'i gilydd er mwyn datblygu a gwella eu gwaith. Trwy'r gweithgareddau hyn, byddant yn datblygu eu **sgiliau llythrennedd** drwy drafod a datblygu **hyblygrwydd a hyder** wrth wynebu heriau creadigol. |







Ysgol Cwrt Henri
Ysgol Ffairfach School
Ysgol Gynradd Talyllychau Talley C.P. School

Thema – Drysau

Ein cwestiwn mawr – Sut mae drysau yn adrodd stori lleoliad?




